# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 6 Mawrth 2012 |
| **Teitl yr Adroddiad** | ADOLYGU ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU - CYNIGION CYCHWYNNOL GAN Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU |
| **Adroddiad Gan** | Prif Weithredwr |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | Ymgynghori |
| **Gweithredu** | Ymateb i'r ymgynghori |

**Rhagarweiniad:**

Bwriedir gostwng nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru gan chwarter – o 40 i 30 – erbyn dyddiad yr Etholiad Cyffredinol nesaf yn y Deyrnas Gyfunol a gynhelir ar 7 Mai 2015. Mae gofyn gwneud y newidiadau hyn yn unol â Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholiadau Seneddol 2011 (Deddf 2011) a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Chwefror 2011. Dywed Adran 22 Deddf 2011 fel a ganlyn:

> *the total number of parliamentary constituencies in the UK should be reduced from 650 to 600 (502 seats in England, 16 in Northern Ireland, 52 in Scotland and **30 in Wales**); and that*
>
> *the population size of each constituency should be within 5 per cent of the —UK electoral quota, which currently stands at 76,641.*
>
> *(There are specified constituencies which are not subject to the operation of the UK electoral quota including the two constituencies on the Isle of Wight in England and the two constituencies in Scotland of Orkney and Shetland, and Na h-Eileanan ân Iar)*

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i bob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau yn y Deyrnas Gyfunol, yn unol â'r Ddeddf, gynnal adolygiad cyffredinol o etholaethau seneddol yn eu hardaloedd a chyflwyno adroddiadau terfynol ar yr adolygiadau i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol cyn 1 Hydref 2013.

**Y Comisiwn Ffiniau i Gymru** sy'n adolygu ffiniau etholaethau seneddol yng Nghymru (- y Comisiwn) a hefyd yn adolygu'r ffiniau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad. Mae'n un o bedwar Comisiwn Ffiniau ar gyfer y Deyrnas Gyfunol, ynghyd â'r Comisiynau Ffiniau ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Er mwyn gweithredu gofynion Deddf 2011, rhaid i'r Comisiwn adolygu'r ffiniau seneddol cyfredol yng Nghymru a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol erbyn dim hwyrach na 1 Hydref 2013.

Ar 11 Ionawr 2012, cyhoeddwyd cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru i bwrpas ymgynghori, a oedd yn cynnwys creu etholaeth sirol o ranbarthau etholiadol cyfredol Cyngor Sir Ynys Môn, rhanbarthau etholiadol Bryn a Pandy yn Sir Conwy (Llanfairfechan, rhan) ac, o Sir Gwynedd, ranbarthau etholiadol Arllechwedd, Bethel, Deiniol, Deiniolen, Dewi, Garth, Gerlan, Glyder, Hendre, Hirael, Marchog, Menai (Bangor), Ogwen, Penisarwaun, Pentir, Tregarth a Mynydd Llandygai a'r Felinheli.

Byddai gan yr etholaeth 74,453 o etholwyr sydd yn 2.9% yn is na'r UKEQ o 76,641 o etholwyr fesul etholaeth. Ni fedr Ynys Môn ar ei phen ei hun gwrdd â'r gofynion statudol o ran maint yr etholaeth. O'r herwydd, roedd rhaid cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig newydd nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r tir mawr gan gynnwys Dinas Bangor a'r cyffiniau.

Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Menai ac Ynys Môn.**

**Argymhelliad:**

Mae angen sylwadau ar y cynigion cychwynnol, ac enw ar gyfer yr etholaeth, erbyn 4 Ebrill 2012. Nid yw'r cynigion cychwynnol ond yn ymwneud ag etholaethau seneddol ac nid ydynt yn cael effaith ar etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Awdurdodau Unedol, rhanbarthau etholiadol na ffiniau cymunedau.

Mae'r Comisiwn hefyd yn pwysleisio na fydd yn ystyried sylwadau a wneir ar nifer y seddau seneddol a neilltuwyd i Gymru nac ar yr amrediad etholaethol statudol. Mae'r rhain wedi eu pennu gan y Senedd ac ni all y Comisiwn eu newid.

**Paratowyd yr adroddiad gan:** Alan Williams, Gwasanaethau Etholiadol.